Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru
Planning & Environment Decisions Wales

# Penderfyniad ar yr Apêl

gan N Jones BA (Anrh) MSc MRTPI
Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru

Dyddiad y penderfyniad: 26/05/2023

Cyfeirnod yr apêl: CAS-02248-F9C0H7

Cyfeiriad y safle: Woodlands, 111 Heol Talbot, Tonysguboriau, Pont-y-clun, CF72 8AH.

- Gwneir yr apêl o dan adran 78 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i amodau.
- Gwneir yr apêl gan Mr Rhys Celyn Alexander Williams yn erbyn y penderfyniad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.
- Cymeradwywyd y cais, Cyf 22/0140/10, dyddiedig 6 Chwefror 2022, ar 31 Mawrth 2022, a rhoddwyd caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i amodau.
- Mae'r datblygiad a ganiateir yn gynnig i waredu'r gwrychoedd prifet a choniffer o'r terfyn yn y wedd flaen a dwyreiniol (sy'n wynebu Heol Talbot a'r gyffordd â ffordd yr A4119) ac adeiladu wal derfyn o friciau solet rhwng 1500mm a 1800mm o uchder (heb fod yn fwy na 6 troedfedd o uchder) o'r ochr gyhoeddus.
- Yr amod sy'n destun anghydfod yw Rhif 3, sy'n datgan: Er y cynlluniau a gyflwynwyd, rhaid gosod llinell y wal a'r gatiau arfaethedig yn ôl heb fod yn llai na 450mm o derfyn y safle a'r briffordd a gynhelir yn gyhoeddus (troedffordd i gerddwyr) ar hyd Heol Talbot, er mwyn sicrhau na fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith andwyol ar gynnal a chadw'r droedffordd i gerddwyr yn y dyfodol.
- Mae'r rheswm a roddir dros yr amod fel a ganlyn: Er mwyn atal rhwystro'r briffordd gyhoeddus, er budd diogelwch ar y ffyrdd yn unol â Pholisi AW5 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.
- Gwnaed ymweliad â'r safle ar 3 Mai 2023.

**Penderfyniad**

1. Caniateir yr apêl, ac mae caniatâd cynllunio Cyf 22/0140/10 ar gyfer cynnig i waredu'r gwrychoedd prifet a choniffer o'r terfyn yn y wedd flaen a dwyreiniol (sy'n wynebu Heol Talbot a'r gyffordd â ffordd yr A4119) ac adeiladu wal derfyn o friciau solet rhwng 1500mm a 1800mm o uchder (heb fod yn fwy na 6 troedfedd o uchder) o'r ochr gyhoeddus yn Woodlands, 111 Heol Talbot, Tonysguboriau, Pont-y-clun, CF72 8AH, a roddwyd ar 31 Mawrth 2022 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, yn cael ei amrywio trwy ddileu amod 3.

**Mater Gweithdrefnol**

2. Rwyf wedi defnyddio'r disgrifiad o'r datblygiad a roddwyd gan y Cyngor yn ei hysbysiad penderfyniad gan ei fod yn disgrifio'r datblygiad a gynigir yn fwy cryno na'r manylion a roddwyd ar y ffurflen gais.

**Prif Fater**

3. Y prif fater yw'r effaith y bydd dileu'r amod sy'n destun anghydfod yn ei chael ar ddiogelwch ar y ffyrdd.

**Rhesymau**

4. Mae eiddo'r apêl a'i ardd wedi'u lleoli ar gornel ger croesffordd aml-lôn brysur a weithredir gan oleuadau traffig, ar ochr cyffordd Heol Talbot â ffordd yr A4119 Heol Cwm Elái. Yn lleol, mae'r gyffordd yn gwasanaethu parc manwerthu mawr a'r ardal breswyl ehangach. Nid yw'r Cyngor yn codi unrhyw bryderon ynghylch effeithiau'r cynnig ar ymyl dwyreiniol y safle ac mae'n cydnabod y byddai'r cynnig yn gwella gwelededd i ddefnyddwyr y ffordd ar hyd Heol Talbot. O'r hyn a welais fy hun, nid oes gennyf unrhyw reswm i ddod i gasgliad gwahanol.

5. O ystyried ei aliniad tebyg i'r gwrych presennol, ni fyddai'r cynnig yn gorgyffwrdd â'r droedffordd nac yn rhwystro llif rhydd y traffig cerddwyr sy'n defnyddio'r droedffordd. O ran cynnal a chadw'r droedffordd i gerddwyr yn y dyfodol, er y byddai'r wal a gynigir o fath tebyg a byddai ganddi aliniad a pherthynas debyg i'r llwybr troed â'r terfynau preswyl eraill gerllaw, byddai'n agosach at gyffordd y groesffordd. Fodd bynnag, gwelais fod darn eang o lwybr troed wedi'i amlinellu, yn ogystal â rhwystr ymwthiol, yn gwahanu eiddo'r apêl oddi wrth y gerbytffordd sydd o'i flaen ar Heol Talbot, a bod darn mawr o lain las i'r dwyrain. O ystyried y gofod sydd ar gael, byddai'n ymddangos bod modd rheoli gwaith cynnal a chadw, a chadw llwybr i gerddwyr ar yr un pryd, heb orgyffwrdd â'r gerbytffordd. Byddai lle ychwanegol i symud wrth gyflawni gweithgareddau cynnal a chadw yn y dyfodol o ganlyniad i osod y wal a'r gatiau yn ôl, a byddai hyn yn debygol o fod yn gyfleus i'r Awdurdod Priffyrdd. Serch hynny, ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth sylweddol i mi fod gwaith cynnal a chadw ar droedffyrdd ger safle'r apêl yn digwydd yn amlach nag mewn mannau eraill yn yr ardal leol, neu fod yr Awdurdod Priffyrdd wedi cael anawsterau wrth wneud gwaith cynnal a chadw yn y rhan hon o Heol Talbot, neu fod gwaith o'r fath wedi achosi rhwystr annerbyniol ar y briffordd oherwydd lleoliad y gwrych presennol. Mae'r wal a gynigir ag aliniad tebyg i'r gwrych, ac mae'n annhebygol o gael unrhyw effaith sylweddol wahanol ar y gallu i gynnal a chadw'r droedffordd, ac felly ni fyddai'n cael effaith annerbyniol ar lif rhydd y traffig nac ar ddiogelwch ar y ffyrdd.

6. Deuaf i'r casgliad na fyddai'r goblygiadau posibl i ddiogelwch ar y ffyrdd yn sylweddol. Felly, nid yw'r amod yn bodloni'r prawf angenrheidrwydd fel y nodir yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/2014, Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu (y Cylchlythyr) ac ni ddylid ei gymhwyso.

**Casgliad**

7. Am y rhesymau a roddir uchod, deuaf i'r casgliad y dylid caniatáu'r apêl. Byddaf yn amrywio'r caniatâd cynllunio wrth ddileu'r amod sy'n destun anghydfod.

8. Wrth wneud fy mhenderfyniad, rwyf wedi ystyried gofynion adran 3 ac adran 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ystyriaf fod y penderfyniad hwn yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf trwy ei gyfraniad tuag at un neu fwy o amcanion llesiant Gweinidogion Cymru fel sy'n ofynnol gan adran 8 y Ddeddf.

*N Jones*

AROLYGYDD